# Prifysgolion dros Gymru gryfach

Maniffesto Prifysgolion Cymru ar gyfer Etholiad Senedd 2026



Mae Prifysgolion Cymru yn gorff aelodaeth sy'n cynrychioli buddiannau'r naw prifysgol sydd yng Nghymru. Rydym yn datblygu polisi addysg uwch, yn ymgysylltu â gwleidyddion a rhanddeiliaid ac yn ymgyrchu ar faterion sy'n effeithio ar ein haelodau.

Prifysgolion Cymru
Universities Wales

# Rhagair



**Yr Athro Elwen Evans, CB**
Cadeirydd, Prifysgolion Cymru

Mae'r byd o'n cwmpas yn newid yn gyflym. O'r chwyldro digidol a newid hinsawdd, i anghydraddoldeb cynyddol ac ansefydlogrwydd byd-eang, mae'r heriau sy'n ein hwynebu yn gymhleth ac yn faterion brys.

Er mwyn mynd i’r afael â’r heriau hyn yn uniongyrchol, rhagwelir y bydd angen 400,000 yn rhagor o raddedigion ar Gymru erbyn 2035[1].

Mae ein ffyniant yn y dyfodol yn dibynnu ar ein gallu i feithrin talent, ysgogi arloesedd a darparu pobl â'r sgiliau i lwyddo mewn byd sy'n symud yn gyflym.

Bob blwyddyn, mae degau o filoedd o bobl yng Nghymru’n mynd i brifysgol. I lawer, mae'n brofiad sy'n newid eu bywydau, boed yn berson ifanc yn gadael cartref am y tro cyntaf, neu'n rhywun sy’n dychwelyd i addysg i ailhyfforddi neu ddilyn llwybr newydd.

Mae graddedigion yn barod i addasu; maen nhw’n greadigol ac yn ddyfeisgar. Nhw hefyd yw ysgogwyr ein llwyddiant ac asgwrn cefn economi y dyfodol. Yn syml, ni fydd twf heb raddedigion.

Mae prifysgolion Cymru werth bron i £11bn i'r economi, gan gynhyrchu dros £13 miliwn am bob £1 filiwn o fuddsoddiad cyhoeddus[2]. Rydym yn cyflogi miloedd o bobl ledled y wlad, yn cefnogi cadwyni cyflenwi lleol ac yn helpu busnesau i barhau i fod yn gystadleuol trwy ein hymchwil, hyfforddiant ac uwchsgilio.

Mae ein hymchwil a'n harloesedd yn troi syniadau yn effaith, gan helpu i fynd i'r afael â heriau lleol a byd-eang – o iechyd y cyhoedd i wydnwch yn wyneb newid hinsawdd. Mae hyn yn ei dro yn hybu twf economaidd, yn sbarduno cynhyrchiant, ac yn creu cyfleoedd newydd ledled y wlad.

Cymru hefyd sydd ar y blaen yn y DU o ran entrepreneuriaeth graddedigion, gyda'r nifer uchaf o fusnesau newydd o ystyried maint y boblogaeth.

Ond mae ein gwerth yn mynd ymhell y tu hwnt i economeg.

Rydym yn cryfhau ac yn cefnogi ein cymunedau – nid yn unig trwy greu swyddi, ond hefyd trwy greu cyfleoedd, ysgogi symudedd cymdeithasol, cefnogi arloesedd lleol a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae prifysgolion yn rhan annatod o wead bywyd Cymru, gan hyrwyddo diwylliant Cymru, a helpu i wireddu uchelgeisiau cenedlaethol o ran yr iaith Gymraeg.

Yn rhyngwladol, mae ein prifysgolion yn meithrin partneriaethau sy'n dod â buddsoddiad, gwybodaeth a chyfoeth diwylliannol i Gymru, wrth gadarnhau ein lle ar lwyfan y byd.

Mae stori prifysgolion Cymru yn un o wydnwch ac uchelgais. Mae ein cryfder yn perthyn, nid yn unig yn ein traddodiad, ond yn ein parodrwydd i addasu a chroesawu'r dyfodol. Trwy weithio gyda'r llywodraeth, busnesau a chymunedau, gallwn sbarduno cyfnod o adnewyddu cenedlaethol yng Nghymru, gan fynd i’r afael â heriau heddiw a llunio agenda yfory.

Mae prifysgolion yn fwy na rhan o’r datrysiad; rydym yn hanfodol iddo.

Pan fo prifysgolion yn llwyddo, mae Cymru’n llwyddo.

[1] Jobs of the Future https://uniswales.ac.uk/cy/galw-am-raddedigion-yng-nghymru-i-gynyddun-aruthrol-erbyn-2035
[2] The economic impact of Welsh universities’ teaching, research and innovation https://uniswales.ac.uk/sites/default/files/2024-10/LE%20-%20Universities%20Wales%20-%20Impact%20of%20Welsh%20universities%20-%20Final%20report.pdf





# Rhagarweiniad

Mae ein maniffesto, Prifysgolion dros Cymru Gryfach, yn disgrifio gweledigaeth feiddgar ac uchelgeisiol ar gyfer tymor nesaf y Senedd. Gan weithio gyda'n gilydd, gallwn adeiladu Cymru fwy medrus, ffyniannus a hyderus trwy:

- Creu swyddi a datblygu sgiliau ar gyfer y dyfodol
- Ysgogi cyfleoedd a symudedd cymdeithasol
- Datblygu datrysiadau i'n heriau mwyaf dwys
- Cefnogi cymunedau Cymru
- Pontio Cymru a'r byd



# Creu swyddi a datblygu sgiliau ar gyfer y dyfodol

Mewn oes o newid economaidd a thechnolegol cyflym, mae'r sgiliau sydd eu hangen i lwyddo yn y gweithle yn esblygu. O ynni gwyrdd a gofal iechyd i dechnoleg ddigidol a gweithgynhyrchu uwch, mae economi Cymru'n mynnu gweithlu hyblyg a medrus iawn. Trwy raglenni gradd, prentisiaethau gradd, cymwysterau proffesiynol a chyfleoedd dysgu gydol oes, mae ein prifysgolion yn datblygu sgiliau lefel uchel sy'n grymuso unigolion i ffynnu mewn byd sy'n newid yn gyflym.

Ar yr un pryd, mae prifysgolion yn sail i fuddsoddiad ar gyfer busnes mewn meysydd allweddol, gan ddod â swyddi i Gymru. Fel pwerdai economaidd lleol, mae prifysgolion yn sbarduno arloesedd trwy gefnogi cwmnïau newydd a'r rhai sy'n tyfu allan ohonynt. Maen nhw hefyd yn partneru â busnesau ar gyfer ymchwil a datblygu, yn ogystal â gweithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill wrth greu swyddi a datblygiad economaidd lleol.

Mae addysg a'r economi wedi'u cysylltu'n agos â'i gilydd. Trwy gydweithio, gall prifysgolion, llywodraeth a diwydiant lunio strategaeth economaidd sy'n darparu gweithlu medrus iawn ac o werth uchel ar gyfer Cymru. Dylai hyn roi ystyriaeth i feysydd lle gallai Cymru fod yn gwneud ei phenderfyniadau ei hun – fel gosod trothwyon cyflogau ar gyfer fisâu gweithwyr medrus yn seiliedig ar anghenion penodol ein heconomi.

**Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru osod prifysgolion wrth galon cynllun uchelgeisiol i adeiladu gwlad fwy medrus a llewyrchus. Fel rhan o hyn, rydym yn galw am y canlynol:**

## Wyddech chi?

Bydd angen mwy na 400,000 o raddedigion ychwanegol ar Gymru erbyn 2035.[3]

## Cefnogaeth drawsbleidiol i adolygiad annibynnol o gyllido prifysgolion a chynhaliaeth i fyfyrwyr

Mae sector prifysgol cynaliadwy yn allweddol i ddatgloi buddsoddiad mewn busnesau, cynhyrchiant a thwf, ledled Cymru.

Fodd bynnag, mae prifysgolion yn gorfod ymdopi â phwysau ariannol sylweddol. Ar yr un pryd, maent yn addasu sut maen nhw'n addysgu ac yn gweithredu mewn ymateb i alw esblygol a newid technolegol cyflym.

Bydd cynnydd sy'n cyfateb i chwyddiant yn y cymorth ariannol sydd ar gael yn hanfodol i sicrhau cynaladwyedd byr-dymor, ond mae angen **adolygiad annibynnol o gyllido prifysgolion a chynhaliaeth i fyfyrwyr** i sicrhau system brifysgolion fodern a deinamig sy'n parhau i gyflawni dros Gymru – nawr ac am genedlaethau i ddod.

[3] Swyddi'r Dyfodol - https://uniswales.ac.uk/demand-graduates-wales-set-soar-2035







Dylai'r adolygiad trawsbleidiol annibynnol hwn fynd i'r afael â'r:

- Cydbwysedd rhwng cyfraniad myfyrwyr, llywodraeth a busnesau at gyllido prifysgolion.
- Y cymhellion sydd ar gael i annog myfyrwyr o Gymru i astudio a gweithio yng Nghymru.
- Dysgu rhan-amser, hyblyg a gydol oes. Mae Cymru wedi darparu cefnogaeth gref ar gyfer dysgu rhan-amser, a bydd angen i hyn barhau i'r dyfodol.
- Cyllid ar gyfer ymchwil ac arloesedd sy'n gystadleuol yn fyd-eang.
- Gofynion cyllido cyfalaf prifysgolion.
- Cyllido pynciau drud, sy'n strategol bwysig.
- Y buddsoddiad sydd ei angen i alluogi prifysgolion i foderneiddio ac addasu.

## Adolygiad annibynnol o'r system prentisiaethau gradd

Mae prentisiaethau gradd yn elfen bwysig o'r cyflenwad sgiliau lefel uwch yng Nghymru, gan ehangu mynediad at addysg uwch i'r rhai sy'n llai tebygol o ddilyn cwrs gradd traddodiadol. Ar hyn o bryd mae prifysgolion yn partneru â diwydiant i ddarparu prentisiaethau gradd ar draws y fframweithiau sydd ar gael: gweithgynhyrchu uwch, peirianneg, digidol ac adeiladu.

Fodd bynnag, nid yw'r system bresennol, sy'n dibynnu ar adnoddau Llywodraeth Cymru ar gyfer ei datblygiad, yn ddigon hyblyg ar hyn o bryd i ymateb i'r newidiadau cyflym mewn sgiliau technolegol sydd eu hangen ar gyfer economi esblygol Cymru. Fel cyrff dyfarnu, nid oes unrhyw reswm pam na allai prifysgolion Cymru gael mwy o ryddid i gynllunio a chyflwyno prentisiaethau mewn partneriaeth â busnesau.

Byddai ehangu prentisiaethau gradd y tu hwnt i'r fframweithiau presennol yn galluogi prentisiaethau gradd i chwarae rhan fwy arwyddocaol wrth ddiwallu anghenion sgiliau Cymru yn y dyfodol. Mae awydd gan fyfyrwyr, prifysgolion a chyrff proffesiynol i ehangu i feysydd fel iechyd a gofal cymdeithasol, hyfforddiant athrawon, gwasanaethau proffesiynol a rheolaeth, yn ogystal ag astudiaethau plentyndod ac ieuenctid.

Mae mwy o ymwneud â phob math o addysg uwch yn hanfodol ar gyfer uwchsgilio'r genedl i ddiwallu'r galw. O'r herwydd, mae prifysgolion yn galw am adolygiad annibynnol a thryloyw o brentisiaethau gradd.

# Ysgogi cyfleoedd a symudedd cymdeithasol

Mae prifysgolion yn sbarduno cyfleoedd a symudedd cymdeithasol ar draws ein holl gymunedau. Maent yn darparu cyfleoedd ar gyfer swyddi sy'n galw am sgiliau uwch ac yn creu llwybrau at well deilliannau bywyd a boddhad o swyddi i raddedigion. Trwy gyfleoedd dysgu gydol oes, prentisiaethau gradd ac astudio hyblyg, mae prifysgolion yn cynorthwyo pobl yng Nghymru i ail-sgilio ac addasu trwy gydol eu bywydau.

Trwy addasu, arloesi a defnyddio dulliau cyflwyno newydd a hyblyg, gall ein prifysgolion roi'r cyfleoedd y maent yn eu haeddu i fwy o bobl i gyrraedd eu potensial llawn. Eto, mae yna fwy y gellir ei wneud o hyd. Fel sector, rydym yn gofyn cwestiynau anodd i ni'n hunain am y newidiadau y mae angen i ni eu gwneud i ddiwallu anghenion ein myfyrwyr a'n cymunedau yn well. Bydd angen i'r llywodraeth nesaf ofyn cwestiynau tebyg.

Ar hyn o bryd rydym yn gweld dirywiad pryderus yng nghanran y bobl 18 oed o Gymru sy'n dewis mynd i'r brifysgol. Mewn oes o drawsnewid cyflym a heriau byd-eang cynyddol, ni allwn fforddio parhau i ailwampio'r hen ddadleuon nad yw addysg prifysgol yn bwysig. Mae addysg uwch yn gonglfaen ar gyfer cyfle, arloesedd a gwydnwch cenedlaethol. Os na lwyddwn i gyfleu ei rôl hanfodol wrth lunio ein rhagolygon at y dyfodol, rydym mewn perygl o adael y genhedlaeth nesaf yn llai cymwysedig, a bod llai o lwybrau i lwyddiant ar gael iddynt.

**Er mwyn cynorthwyo prifysgolion i ehangu eu cyrhaeddiad ac i gyflawni ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau i ddod, gofynnwn i Lywodraeth nesaf Cymru:**

## Sefydlu comisiwn annibynnol ar gyfranogiad ein pobl mewn addysg uwch

Gallai dod i ddeall a gwrthdroi'r dirywiad yng nghyfranogiad poblogaeth Cymru mewn addysg uwch ddatgloi potensial miloedd o bobl, gan uwchsgilio'r economi a hybu symudedd cymdeithasol. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru sefydlu Comisiwn Annibynnol i wneud y canlynol:

- Cymryd ymagwedd sy'n cwmpasu'r sector addysg yn ei gyfanrwydd.
- Asesu effaith ymyriadau polisi sydd eisoes ar waith, fel y pecyn cymorth i fyfyrwyr a rhaglen Seren.
- Ystyried mesurau newydd i hybu nifer y bobl sy'n gwneud cais am le mewn addysg uwch yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys darparu gwell cefnogaeth ar gyfer astudio rhan-amser a hyblyg a gwella cyfleoedd i ddysgu gydol oes.



# Datblygu datrysiadau i'n heriau mwyaf dwys

Mae prifysgolion Cymru yn cynnal ymchwil ac arloesedd o'r radd flaenaf sy'n mynd i'r afael â heriau byd-eang, sydd o fudd i bobl, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus, yma yng Nghymru ac ar draws y byd. Mae ymchwil arloesol yn arwain at ddatrysiadau ymarferol – o driniaethau meddygol newydd i dechnoleg lân a seilwaith clyfar – ac mae'r cyfleoedd economaidd ac o ran buddsoddi yng Nghymru sy'n deillio o ymchwil ac arloesedd mewn prifysgolion yn bellgyrhaeddol.

## Wyddech chi?

70% o ymchwil a asesir ym mhrifysgolion Cymru yn creu effaith uniongyrchol yng Nghymru, gan wella bywydau trwy ofal iechyd, addysg a gwasanaethau cyhoeddus[4].

Ar yr un pryd, mae prifysgolion yn chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo ymchwil arloesol, nad oes iddo bwrpas heddiw o bosibl, ond sy'n hanfodol i lunio datblygiadau arloesol yfory. Mae'r ffocws deuol hwn yn sicrhau bod Cymru nid yn unig yn ymateb i heriau brys heddiw, ond hefyd yn gosod y sylfaen ar gyfer darganfyddiadau yn y dyfodol.

**Er mwyn cefnogi ymchwil ac arloesedd mewn prifysgolion a'i botensial ar gyfer twf yng Nghymru, gofynnwn i Lywodraeth nesaf Cymru:**

## Ymrwymo i ariannu ymchwil yn gynaliadwy yng Nghymru

Mae Cyllid sy'n Gysylltiedig ag Ansawdd (QR) sy'n gyfrifol am lawer o ragoriaeth ymchwil Cymru. Mae'n darparu cefnogaeth hyblyg a strategol ar gyfer seilwaith a thalent ymchwil ac yn galluogi prifysgolion i fynd ymlaen i elwa o ffynonellau cyllid cystadleuol eraill. Ynghyd â chynnydd yng Nghronfa Arloesedd Ymchwil Cymru (RWIF), mae mwy o fuddsoddiad mewn Cyllid sy'n Gysylltiedig ag Ansawdd yn hanfodol i ddiogelu rhagoriaeth ymchwil yng Nghymru ar gyfer y dyfodol. Byddai hyn hefyd yn diogelu enw da a llwyddiant ein prifysgolion, yn ogystal â sbarduno cystadleurwydd a chynnydd yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

[4] Effeithiau ymchwil o brifysgolion yng Nghymru: Adolygiad cynhwysfawr o astudiaethau achos ar effaith y Framwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021 - https://www.learnedsociety.wales/wp-content/uploads/2023/10/The-impacts-of-research-from-Welsh-universities-Final.pdf



## Buddsoddi mewn arloesedd a masnacheiddio

Mae Cymru wedi sefydlu sylfaen gref ar gyfer gweithgaredd masnacheiddio a chydweithio ledled y wlad ar ffurf rhaglenni fel Rhwydwaith Arloesedd Cymru, sydd â'r nod o wella cydweithio mewn ymchwil ac arloesi a denu â mwy o fuddsoddiad i Gymru.

Mae Prifysgolion Cymru yn galw am fwy o fuddsoddiad mewn ymchwil ac arloesi yn ein prifysgolion trwy Gronfa Arloesedd Ymchwil Cymru (RWIF), sy'n grymuso prifysgolion Cymru i ddarparu ymchwil, arloesedd ac ymgysylltiad dinesig sy'n creu lefel uchel o effaith. Mae cyllid RWIF yn dal i fod gryn lawer is na chyllid cyfatebol yng ngwledydd eraill y DU. Byddai cynnydd sylweddol yn RWIF, gyda'i ffocws ar fasnacheiddio, yn galluogi cynllunio a buddsoddi hirdymor; byddai'n cynorthwyo â chydweithio ledled Cymru ac yn helpu sefydliadau i ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol fel sero net, trawsnewid digidol a thegwch iechyd.

Rydym hefyd yn galw am fwy o gefnogaeth ar gyfer masnacheiddio a chynyddu twf. Er enghraifft, byddai rôl estynedig i Fanc Datblygu Cymru mewn cefnogi masnacheiddio prifysgolion yn cryfhau buddsoddiad ar gyfer busnesau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes. Gallai'r gefnogaeth ychwanegol hon fod yn drawsnewidiol wrth hybu effaith economaidd y sector a datgloi cynhyrchiant a thwf ar draws pob rhan o Gymru.



# Cefnogi cymunedau Cymru

Mae prifysgolion Cymru yn sefydliadau sy'n angor yn eu rhanbarthau; maent yn ganolfannau hanfodol sy'n sbarduno twf economaidd, yn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus, ac yn siapio'r ardaloedd ble mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn ffynnu.

Fel cyflogwyr sylweddol a chyfranwyr economaidd, mae prifysgolion yn cynnal miloedd o swyddi, yn ysgogi cadwyni cyflenwi lleol, ac yn denu buddsoddiad i drefi a dinasoedd ledled Cymru. Mae partneriaethau â chynghorau, ysgolion, ymddiriedolaethau'r GIG, busnesau ac elusennau yn meithrin arloesedd ac yn darparu manteision pendant i gymunedau – o wasanaethau cyhoeddus a rhaglenni diwylliannol i ddatblygu'r gweithlu a dysgu gydol oes.

## Wyddech chi?

Mae pob £1m o arian cyhoeddus a fuddsoddir ym mhrifysgolion Cymru'n cynhyrchu dros £13m o effaith economaidd[5], gan ddwyn budd i gymunedau ledled Cymru.

Mae prifysgolion hefyd yn chwarae rhan bwysig ym mywyd diwylliannol Cymru; gan gryfhau'r Gymraeg trwy addysgu, ymchwil a gweithgaredd diwylliannol, yn ogystal â helpu i sicrhau bod yr iaith yn parhau i fod yn berthnasol i genedlaethau'r dyfodol.

Trwy wreiddio ymchwil, addysg a menter o fewn cymunedau lleol, mae prifysgolion yn helpu i adeiladu economïau rhanbarthol cadarn a chreu cyfleoedd sy'n adlewyrchu cryfderau ac anghenion unigryw pob rhan o Gymru. Mae'r effaith i'w theimlo nid yn unig mewn darlithfeydd, ond ar ein strydoedd, parciau diwydiannol, a chanolfannau cymunedol ledled y wlad.

**Gofynnwn i Lywodraeth nesaf Cymru gefnogi'r rôl hanfodol y mae prifysgolion yn ei chwarae yn eu cymunedau trwy:**

### Sicrhau cyllid buddsoddi rhanbarthol strategol

Bydd cyllid ar gyfer buddsoddi rhanbarthol hirdymor, y gall prifysgolion gael mynediad ato, yn hanfodol i gefnogi rôl prifysgolion fel sefydliadau angor rhanbarthol ac annog cyd-fuddsoddiad preifat.

Mae yna ryngddibyniaeth rhwng twf economaidd rhanbarth a datblygiad ei sylfaen sgiliau, felly rhaid datganoli polisi yn briodol i ddiwallu ar gyfer cyfleoedd ac anghenion lleol. Fodd bynnag, gall dosbarthu cyllid ar lefel llywodraeth leol – fel sy'n digwydd gyda'r Gronfa Ffyniant a Rennir – fod yn rhy dameidiog a gall beryglu allgau prifysgolion, sy'n gweithredu'n bennaf ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Mae dosbarthu cyllid yn rhanbarthol, wedi'i sianelu trwy Lywodraeth Cymru, yn hanfodol i sicrhau'r effaith leol fwyaf posibl.



[5] Effaith economaidd addysgu, ymchwil ac arloesedd prifysgolion Cymru https://uniswales.ac.uk/sites/default/files/2024-10/LE%20-%20Universities%20Wales%20-%20Impact%20of%20Welsh%20universities%20-%20Final%20report.pdf







# Pontio Cymru a'r byd

Mae prifysgolion yn sefydliadau byd-eang sydd â hanes balch o osod Cymru ar y llwyfan rhyngwladol a chroesawu'r byd i'n gwlad. Wrth i ni addasu ac ymateb i newidiadau byd-eang cyflym, mae gallu prifysgolion i edrych tuag allan i'r byd ehangach yn bwysicach nag erioed.

Mae prifysgolion hefyd yn ganolog i ddyfodol buddsoddi mewnol Cymru, ac mae ganddyn nhw rôl allweddol i'w chwarae wrth gefnogi strategaeth economaidd sydd â chyrhaeddiad ac uchelgais byd-eang. Fel partneriaid dibynadwy i ddiwydiant ar draws sectorau allweddol, mae gan brifysgolion rwydweithiau rhyngwladol cryf ac maent mewn sefyllfa eithriadol o dda i gefnogi uchelgeisiau'r llywodraeth nesaf ar gyfer twf. Bydd cydnabod y rôl allweddol hon mewn strategaethau rhyngwladol yn y dyfodol yn hanfodol i ddatgloi potensial llawn Cymru.

**Er mwyn cynorthwyo ein prifysgolion i barhau i edrych tuag allan a meithrin cysylltiadau byd-eang er budd Cymru, gofynnwn i Lywodraeth nesaf Cymru wneud y canlynol:**

### Gweithredu argymhellion 'Cymru Ar Draws Ffiniau'

Mae ar Gymru angen strategaeth ddeinamig, flaengar ar gyfer addysg ac ymchwil ryngwladol i sicrhau twf economaidd, cefnogi arloesedd, a chynyddu ei dylanwad byd-eang.

Mae 'Cymru Ar Draws Ffiniau'[6] yn cynnig cyfres o argymhellion i gryfhau safle byd-eang Cymru mewn addysg ac ymchwil rhyngwladol.

Mae'r adroddiad yn galw am gefnogaeth genedlaethol i farchnata ein prifysgolion trwy'r brand 'Astudio yng Nghymru'. Mae'n nodi buddiannau clir i Gymru yn rhaglenni Horizon Europe ac Erasmus+ ac yn galw am gydweithio agosach rhwng llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig i gyflawni cysylltiad yn y dyfodol. Mae hefyd yn galw am Hyrwyddwr Addysg Ryngwladol i Gymru a dull mwy ystyriol o ymdrin â pholisi mewnfudo i wasanaethu gofynion sgiliau Cymru yn well. Mae yna alwadau penodol hefyd ynghylch ymchwil, gan gynnwys cyfle i adfywio rhaglen Sêr Cymru[7].



[6] Cymru ar draws ffiniau.pdf
[7] Sêr Cymru | LLYW.CYMRU

# Prifysgolion dros Gymru gryfach

Prifysgolion Cymru
Un Sgwâr Canolog
Caerdydd, CF10 1FS

029 2044 8020
info@uniswales.ac.uk
uniswales.ac.uk

